# Digwyddiadau casineb mewn tai cymdeithasol ar rent: Adolygiad o ddulliau a defnyddio'r pecyn cymorth digwyddiadau casineb

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 06/2013

Yn 2008, cyhoeddodd Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Landlordiaid Cymdeithasol Cymru *Tackling Hate Incidents – a Toolkit for Social Landlords in Wales* (y Pecyn Cymorth).

Yn 2012, cafodd Shelter Cymru a Tai Pawb eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad proses ac effaith er mwyn asesu effeithiolrwydd y Pecyn Cymorth a darparu tystiolaeth er mwyn galluogi ei ddatblygu ymhellach.

Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng Mehefin a Thachwedd 2012.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau**:
Darganfu'r ymchwil fod y Pecyn Cymorth yn cael ei ddefnyddio gan ychydig dros draean o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru (dangosodd ein harolwg 37%), gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn bennaf. Awgrymodd landlordiaid cymdeithasol nad ydynt yn defnyddio'r Pecyn Cymorth fod eu dulliau yn dilyn ethos y Pecyn Cymorth.

Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid o'r farn bod y Pecyn Cymorth yn gyfeirlyfr defnyddiol i landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â digwyddiadau casineb.

Amlygodd yr ymchwil amrywiaeth o ddulliau ac arfer da y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio i ddelio â digwyddiadau casineb.

Deilliodd nifer o themâu o'r canfyddiadau:
(i) Ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau casineb a chydnabyddiaeth ohonynt:

Un o'r prif rwystrau rhag mynd i'r afael â digwyddiadau casineb yn effeithiol yw diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd (gan gynnwys y rhai sy'n dioddef digwyddiadau casineb a'r rhai sy'n eu hachosi)

a sefydliadau (gan gynnwys staff landlordiaid cymdeithasol) o beth yw digwyddiad casineb a phwy y mae'n effeithio arno. Felly, efallai nad yw tenantiaid yn rhoi gwybod amdano gan nad ydynt yn sylweddoli eu bod wedi dioddef digwyddiad casineb ac felly heb roi gwybod amdano.

Roedd yr ymchwil wedi cyffwrdd ar gymhlethdodau digwyddiadau casineb, pwysigrwydd hyfforddiant digonol i staff landlordiaid cymdeithasol a monitro digwyddiadau casineb yn effeithiol. Nodwyd bod y Pecyn Cymorth yn adnodd defnyddiol ar gyfer gwella ymwybyddiaeth sefydliad o ddigwyddiadau casineb a'i allu i'w cydnabod felly.

***Cysondeb ymatebion ar draws Cymru***

Sylwodd yr ymchwil ar broblem cysondeb yr ymatebion i ddigwyddiadau casineb gan landlordiaid cymdeithasol ar draws Cymru. Adroddodd landlordiaid cymdeithasol ystod eang o wahanol ymatebion, yn dibynnu ar gyd-destun ac angen lleol.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen sicrhau bod ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau casineb tuag at bobl â rhai o'r nodweddion gwarchodedig llai cyfarwydd yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.

***Dull amlasiantaeth o fynd i'r afael â digwyddiadau casineb***

Roedd tystiolaeth o weithio effeithiol mewn partneriaeth rhwng landlordiaid cymdeithasol a sefydliadau eraill i fynd i'r afael â digwyddiadau casineb. Dywedodd landlordiaid cymdeithasol sy'n defnyddio'r Pecyn Cymorth eu bod yn gweithio'n dda mewn partneriaeth hyd yn oed cyn rhoi'r Pecyn Cymorth ar waith.

Roedd hi'n glir bod angen dull amlasiantaeth yn cynnwys sefydliadau (a defnyddwyr gwasanaeth) lleol a chenedlaethol er mwyn i landlordiaid cymdeithasol fynd i'r afael â digwyddiadau casineb yn effeithiol. Fodd bynnag, awgrymodd y canlyniadau efallai bod llai o ymgysylltu ag asiantaethau heblaw am yr heddlu a phartneriaethau diogelwch cymunedol.

***Rhwystrau rhag rhoi gwybod***

Adroddodd landlordiaid cymdeithasol ar sawl ffordd y gall tenantiaid roi gwybod am ddigwyddiadau casineb, gan gynnwys dros y ffôn, drwy e-bost a systemau adrodd trydydd parti. Fodd bynnag, fel y nodwyd, mae digwyddiadau casineb yn enwog am beidio â chael eu hadrodd, ac mae hyn i'w weld hefyd ym maes tai cymdeithasol.

Tybir bod nifer o resymau pam mae pobl sy'n dioddef troseddau casineb yn amharod i roi gwybod i'w landlord cymdeithasol amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth gan y dioddefwr o beth yw digwyddiad casineb mewn gwirionedd, yr ofn na chaiff unrhyw beth ei wneud ar ôl rhoi gwybod am y digwyddiad, ofn sgil-effeithiau a phroblemau – boed yn rhai gwirioneddol neu'n amgyffrediad o hynny – ynghylch natur or-gyfeillgar y systemau adrodd.

***Monitro data deilliannau gwaith ar ddigwyddiadau casineb***

Darganfu ein hymchwil nad yw'r hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â digwyddiadau casineb yn destun monitro ffurfiol digonol, felly mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i landlordiaid cymdeithasol fesur llwyddiant eu dulliau yn gywir. Fodd bynnag, mae rhai landlordiaid yn cydnabod hyn ac yn anelu at wella'u gwaith yn monitro digwyddiadau casineb a pham maent yn defnyddio'r data monitro.

***Datrys y digwyddiadau neu'r troseddau casineb***

Darganfu'r ymchwil fod landlordiaid cymdeithasol yn defnyddio sawl ffordd o ddelio â digwyddiadau casineb, gan amrywio o droi allan i gyfryngu a chyfiawnder adferol. Yn y bôn, amlygodd llawer o landlordiaid cymdeithasol fod angen i'r ymateb a'r ffordd o ddatrys yr achos ganolbwyntio ar y dioddefwr.

**Cefndir**

Caiff digwyddiadau casineb eu diffinio fel mynegiad o ragfarn ar sail y nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dyma'r nodweddion: Oed, Rhyw, Anabledd, Crefydd neu Gred,

Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Ailbennu Rhywedd, Beichiogrwydd a Mamolaeth a Phriodas a Phartneriaeth Sifil[1].

Er bod tramgwydd troseddol (er enghraifft, ymosodiad neu ddifrod troseddol) ynghlwm wrth droseddau casineb, mae digwyddiadau casineb yn cynnwys sbectrwm ehangach o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys ymddygiad nad yw'n droseddol. Yn aml, bydd delio â throseddau casineb a digwyddiadau casineb yn cael ei ystyried yn agwedd ar reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol[2].

Fel rhan o'r Dyletswyddau Penodol i Gymru drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn Ebrill 2012, sy'n cynnwys amcan i fynd i'r afael â throseddau casineb. Yn ogystal, yn 2013, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Fframwaith Gweithredu ar Droseddau Casineb gyda'r nod o ddatblygu dull safonol ar draws Cymru gyfan. Bydd y fframwaith wedi'i dargedu at Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid a'i dri amcan allweddol fydd:

(i) atal troseddau casineb;

(ii) cynyddu cyfraddau adrodd, hyfforddi a'r gallu i gael cymorth; a

(iii) gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb.

Mae ymchwil, ynghyd â phrofiadau hirsefydlog Tai Pawb a'i sefydliadau partner, yn awgrymu bod yn rhaid i landlordiaid cymdeithasol chwarae rôl allweddol wrth atal a mynd i'r afael â throseddau casineb. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae enghreifftiau niferus wedi dangos bod hyd yn oed digwyddiadau sy'n cael eu dosbarthu'n "gamdriniaeth ar lefel isel", yn gallu cael canlyniadau difrifol iawn i ddioddefwyr troseddau casineb, os cânt eu hailadrodd.

## Dulliau

[1] Er hyn, dim ond pum nodwedd warchodedig sy'n cael eu mesur o ran Troseddau Casineb gan yr heddlu, sef: Anabledd, Crefydd a Chred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil ac Ailbennu Rhywedd

[2] Gweler: Y Swyddfa Gartref, 2012, Challenge It, Report It, Stop It; ac, Y Swyddfa Gartref, Papur Gwyn, 2012, Putting Victims First: More Effective Responses to Anti-social Behaviour, Cm 8367 para 1.15

Nodau'r gwaith ymchwil hwn oedd:

(i) canfod i ba raddau y caiff y Pecyn Cymorth ei ddefnyddio – gan gynnwys nodi enghreifftiau – ac a gyflawnwyd ei nodau;

(ii) nodi – lle nad yw'r Pecyn Cymorth wedi'i ddefnyddio – a fabwysiadwyd dull amgen ac, os felly, pa mor llwyddiannus y bu hwn;

(iii) nodi a oes angen gwelliannau i'r Pecyn Cymorth neu awgrymu prosesau eraill ar gyfer cyflawni nodau'r Pecyn Cymorth; a

(iv) dysgu hefyd pa waith y mae landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn ei wneud i fynd i'r afael â digwyddiadau casineb ac asesu sut gellid gwella'r gwaith hwn.

Gwnaed y gwerthusiad rhwng Mehefin a Hydref 2012 ac roedd yn cynnwys ymgynghori â landlordiaid cymdeithasol, rhanddeiliaid yn ehangach a dioddefwyr digwyddiadau casineb.

Gofynnwyd yn bennaf i landlordiaid cymdeithasol roi eu barn drwy holiadur ar-lein.

Cafwyd ymatebion gan ryw 80% o landlordiaid cymdeithasol rheoleiddiedig. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion y Tîm Ymchwil i ymgysylltu â nhw dros y ffôn, drwy e-bost a thrwy'r post, ychydig o ymatebion a gafwyd gan landlordiaid de minimus[3].

Roedd ail gam yr ymchwil yn cynnwys:

(i) cyfres o gyfweliadau unigol gyda 10 o randdeiliaid (gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol);

(ii) tri grŵp ffocws gyda 47 o randdeiliaid â budd (dau yn ne Cymru ac un yng ngogledd Cymru); a

(iii) chyfres o gyfweliadau unigol gyda chwech o bobl a oedd wedi dioddef digwyddiadau casineb yng Nghymru.

Roedd y Tîm Ymchwil wedi cyflogi rhywun â phrofiad o ddigwyddiadau casineb, sef Swyddog Ymchwil Cymheiriaid. Helpodd gynllunio

[3] landlordiaid cymdeithasol cofrestredig â llai na 250 eiddo

sgriptiau'r cyfweliadau ymchwil a bu'n cyfweld â'r cyfranogwyr ochr yn ochr â'n Swyddogion Ymchwil.

Yn olaf, roedd y fethodoleg yn cynnwys casglu enghreifftiau o arfer da gan landlordiaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill sy'n gweithio i fynd i'r afael â digwyddiadau casineb yng Nghymru.

**Argymhellion**

Datblygwyd argymhellion yn ôl tair thema fras, sef:

(i) Hyrwyddo'r Pecyn Cymorth ac ymwybyddiaeth well;

(ii) Gweithio mewn partneriaeth; a

(iii) Newidiadau i'r Pecyn Cymorth.

Roedd y Tîm Ymchwil wedi cynnwys awgrymiadau penodol i Lywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol ynghylch sut i roi'r argymhellion ar waith.

**Hyrwyddo'r Pecyn Cymorth ac ymwybyddiaeth well**

Dylai Llywodraeth Cymru:

Hyrwyddo'r Pecyn Cymorth ymhellach i landlordiaid cymdeithasol nad oeddent wedi clywed amdano cyn hynny, gan sicrhau felly bod eu sefydliad yn y sefyllfa orau i ddelio â digwyddiadau casineb.

Sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn cael ei hyrwyddo ymhellach ymhlith rhanddeiliaid fel sefydliadau cymorth dioddefwyr a sefydliadau gwirfoddol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac eraill.

Sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn hyrwyddo ymateb cyson ond lleol a phersonol i ddigwyddiadau casineb ac ymateb sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. At hynny, dylai'r Pecyn Cymorth annog ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhai sydd wedi dioddef digwyddiadau casineb er mwyn sicrhau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.

Sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol mewn ardaloedd sy'n gweld llai o nodweddion gwarchodedig penodol yn hollol ymwybodol o ddigwyddiadau casineb. Dylai'r Pecyn Cymorth

gael ei hyrwyddo ymhellach i landlordiaid cymdeithasol yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.

Ystyried yr argymhellion hyn wrth werthuso Safon Rheoli Tai Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac yn Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Droseddau Casineb.

Dylai landlordiaid cymdeithasol:

Sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd i reolwyr a'r holl staff rheng flaen yn cyd-fynd â defnyddio'r Pecyn Cymorth er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau casineb ac i sicrhau bod ymrwymiad a dull cyson, traws-sefydliadol ar gyfer delio â digwyddiadau o'r fath.

Cynnig hyfforddiant ar bob un o'r nodweddion gwarchodedig y mae digwyddiadau a throseddau casineb yn effeithio arnynt, gan gynnwys natur fregus ychwanegol posibl rhai unigolion (e.e. problemau iechyd meddwl, anableddau dysgu, oedran ac ati), hyd yn oed os yw landlordiaid o'r farn nad ydynt yn cael digwyddiadau casineb yn eu hardal.

Sicrhau bod gan landlordiaid cymdeithasol nad ydynt yn defnyddio'r Pecyn Cymorth bolisïau a gweithdrefnau sy'n dilyn yr arfer gorau sydd wedi'i ddatgan yn y Pecyn Cymorth, hyd yn oed os ydynt o'r farn bod nifer y troseddau casineb yn isel yn eu hardal.

Codi ymwybyddiaeth o beth yw digwyddiad casineb gyda thenantiaid (gan gynnwys enghreifftiau o ddigwyddiadau casineb). Gallai'r Pecyn Cymorth gynorthwyo â hyn trwy ddarparu templed/gwybodaeth enghreifftiol i landlordiaid cymdeithasol ei addasu'n briodol.

Drwy Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Landlordiaid Cymdeithasol Cymru Gyfan, parhau â'u gwaith o hyrwyddo arfer da ynghylch delio â throseddau casineb. Dylai'r Fforwm barhau i annog landlordiaid cymdeithasol mwy sydd â pholisïau sefydledig ar ddigwyddiadau casineb i gysylltu â landlordiaid cymdeithasol llai er mwyn cefnogi a rhannu arfer da.

Cynnig a rhoi cyhoeddusrwydd i ffyrdd hygyrch a hwylus i'r defnyddiwr o roi gwybod am ddigwyddiadau casineb. Dylai gwybodaeth am yr hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan eu landlord cymdeithasol, a beth fydd yn digwydd nesaf, gyd-fynd â chyhoeddusrwydd o'r fath. Gallai'r Pecyn Cymorth ddarparu mwy o wybodaeth ac enghreifftiau o arfer da yn y maes hwn.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Dylai Llywodraeth Cymru:

Ystyried hyrwyddo mwy o arfer da yn ymwneud â gweithio amlasiantaeth drwy gyfrwng y Pecyn Cymorth neu ddulliau eraill. Gallai hyn gynnwys enghreifftiau o achosion lle mae strwythurau Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn gysylltiedig, gan gynnwys asesiadau risg, enghreifftiau o brotocolau rhannu gwybodaeth, egwyddorion MARAC, cylch gorchwyl a mecanweithiau cydlynu sy'n gyffredin i bawb. Lle caiff cynadleddau MARAC peilot eu datblygu, dylai'r rhain gynnwys landlordiaid cymdeithasol a dylid hyrwyddo canlyniadau'r cynadleddau peilot ymhlith landlordiaid cymdeithasol.

Dylai landlordiaid cymdeithasol:

Yn achos awdurdodau lleol, dylent ddatblygu ymhellach ddulliau atal, ac ymgorffori cydlyniant cymunedol ac atal troseddau casineb yn eu polisïau, eu harferion a'u Cynlluniau Integredig Sengl, fel y caiff ei gynghori yn "Cymru'n Cyd-dynnu – Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru" ac wedi hynny yn "Prif Ffrydio Cydlyniant Cymunedol - Canllaw ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru" (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae'r canllaw yn rhoi gwybodaeth am sut i ymgorffori cydlyniant cymunedol ac atal troseddau casineb mewn strategaethau, polisïau ac arferion yn ymwneud â thai. Bydd hyn yn mynd i'r afael â bylchau yn y gwaith ar atal troseddau casineb a nodwyd gan rai o'r bobl a wnaeth gymryd rhan yn yr ymchwil. Dylai cymdeithasau tai ddilyn arfer tebyg a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i wneud yn siwr bod y canllawiau'n cael eu rhoi ar waith.

Sicrhau eu bod yn aelodau o bartneriaethau amlasiantaeth lleol ynghylch troseddau casineb, lle bo'r rhain yn bodoli. Lle nad oes partneriaethau ffurfiol, dylai landlordiaid cymdeithasol weithio gydag asiantaethau perthnasol fesul achos.

**Newidiadau i'r Pecyn Cymorth**

Dylai Llywodraeth Cymru:

Archwilio ymhellach i ddulliau effeithiol o annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb, annog gweithio amlasiantaeth (gan gynnwys gydag ysgolion) a gostwng nifer y digwyddiadau casineb a ddangoswyd yn yr ymchwil hon gan y rhai nad ydynt yn defnyddio'r Pecyn Cymorth er mwyn cynnwys arfer da o'r fath yn y Pecyn Cymorth er budd landlordiaid cymdeithasol eraill.

Ystyried troi'r Pecyn Cymorth yn becyn ar-lein. Byddai hyn yn sicrhau bod modd mynd ato'n gyflym drwy groesdablu ac opsiynau chwilio, ynghyd â chynnig cyfle i roi diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau ac arfer da sy'n dod i'r amlwg. Byddai hyn yn atal y ddogfen rhag mynd yn rhy swmpus ar yr un pryd â chynnig cyfle i ychwanegu cynnwys newydd.

Ystyried cynnwys templed/ gwybodaeth enghreifftiol yn y Pecyn Cymorth ynghylch beth yw digwyddiad casineb, fel y gall landlordiaid cymdeithasol ei bersonoli er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau casineb ymhlith tenantiaid.

Ystyried darparu mwy o wybodaeth am ffyrdd o atal troseddau casineb, a allai ffurfio mwy o'r Pecyn Cymorth (gan gynnwys enghreifftiau o arfer da). Y rheswm dros hyn yw bod tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r Pecyn Cymorth yn cael ei ddefnyddio'n ddigon eang ar hyn o bryd i leihau troseddau casineb drwy atal, gan gynnwys mentrau cydlyniant cymunedol ac ystyriaethau dyrannu, er y gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau ehangach.

Sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn annog partneriaeth bellach rhwng landlordiaid cymdeithasol a

rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys gwaith gydag ysgolion ac asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill.

Sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn darparu mwy o wybodaeth ac enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb, mewn ffyrdd hygyrch a hwylus i'r defnyddiwr. Gallai enghreifftiau o beth y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan eu landlord cymdeithasol a beth fydd yn digwydd nesaf, gyd-fynd â hyn i'r landlordiaid eu defnyddio.

Sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn hyrwyddo safonau perfformiad cyffredin a monitro wedi'i safoni, gan gynorthwyo landlordiaid cymdeithasol i wneud hyn trwy ddarparu templedi a'u hannog i rannu eu canlyniadau gyda landlordiaid cymdeithasol eraill. Dylai'r Pecyn Cymorth ganolbwyntio ar sut gall data monitro gael ei ddefnyddio i wella perfformiad a chanlyniadau i ddioddefwyr.

Sicrhau bod y Pecyn Cymorth yn mynd ati ymhellach i hybu datrys achosion mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Dylai opsiwn cyfryngu neu gyfiawnder adferol fod ar gael i'r dioddefwr a'r tramgwyddwr lle bo hynny'n briodol a lle bônt yn dymuno dilyn y cam adfer hwnnw. Mae angen cymryd camau i sicrhau ymyrraeth gynnar (i atal gwaethygu a'r angen i symud). Lle y bo'r dioddefwr yn cytuno, dylai'r tramgwyddwyr wynebu canlyniadau priodol eu hymddygiad ac mae angen anfon neges gadarn i'r tramgwyddwyr ac i'r gymuned ynghylch gweithredu, lle y bo hynny'n berthnasol.

Dylai landlordiaid cymdeithasol:

Ddefnyddio data monitro er mwyn adolygu eu polisïau troseddau casineb/ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rheolaidd. Dylai hyn hefyd gynnwys ymgynghori â dioddefwyr a sefydliadau cefnogi dioddefwyr.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch
â:
Enw: Sara James
Adran: Gwasanaethau
Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: 0300 062 8562
Ffacs: (01685) 728006
E-bost:
sara.james@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth
Cymru, [blwyddyn]
ISBN: 978-0-7504-9148-8
© Hawlfraint y Goron [blwyddyn]